**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Mr Ieuan Evans
Cadeirydd
Mr Nigel Walker
Prif Weithredwr Interim
Undeb Rygbi Cymru

3 Chwefror 2023

**Llythyr dilynol yn sgil cyfarfod y Pwyllgor ar 2 Chwefror 2023**

Annwyl Ieuan a Nigel

Yn gyntaf oll, hoffwn ddiolch i chi ar ran y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol am roi tystiolaeth ddydd Iau 2 Chwefror 2023. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i'r ddau ohonoch am eich amser.

Cafodd y Pwyllgor sioc o glywed nad oedd Undeb Rygbi Cymru ("URC") wedi sylweddoli pa mor ddifrifol oedd y materion hyn nes i raglen ddogfen y BBC gael ei darlledu ar 23 Ionawr 2023. Mae'n destun pryder nad oedd busnes â throsiant o £100 miliwn, heb sôn am sefydliad cenedlaethol, â gafael ar y materion hyn.

Fel y gwyddoch, URC yw ceidwad un o'n campau cenedlaethol. Mae'n ddyletswydd arno fel y ceidwad hwnnw i sicrhau bod rygbi yng Nghymru yn rhydd o gamwahaniaethu a chasineb yn erbyn menywod, a bod pawb sy'n cymryd rhan ac yn gweithio yn y gêm yn gallu gwneud hynny heb ofni rhagfarn neu annhegwch.

Cawsom ein sicrhau o glywed yr edifeirwch yn eich tystiolaeth ac fe wnaethom groesawu'r camau nesaf a amlinellwyd gennych i fynd i'r afael â'r honiadau o hiliaeth, gwahaniaethau ar sail rhyw a chasineb yn erbyn menywod yn URC. Fel y trafodwyd yn ystod y cyfarfod, mae nifer o gamau gweithredu yr hoffem fynd ar eu trywydd gyda chi.

## Tasglu annibynnol

Yn y cyfarfod, fe wnaethoch chi nodi y byddai cadeirydd annibynnol y tasglu yn cael ei gyhoeddi ddydd Gwener 3 Chwefror, yn ogystal â chyhoeddi'r cylch gorchwyl. Fe gytunoch chi hefyd i rannu diweddariadau rheolaidd ar waith y tasglu unwaith y bydd wedi cychwyn. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech rannu'r wybodaeth hon gyda'r Pwyllgor unwaith y bydd yn barod ac ar gael.

Mae'r Pwyllgor o'r farn y byddai'n amhriodol iddo wneud unrhyw waith ochr yn ochr â'r tasglu sy'n dyblygu ei waith. Rhaid caniatáu i'r tasglu hwn wneud ei waith yn annibynnol ac yn drylwyr. Rydym yn croesawu eich ymrwymiadau i 'agor eich drysau a'ch llyfrau' i'r tasglu. Mae'r tryloywder hwn yn gam pwysig wrth gynnal y gwaith hwn.

Edrychwn ymlaen at ystyried argymhellion y tasglu unwaith y bydd wedi gorffen ei waith.

## Adolygiad 2021 i rygbi menywod

Yn ystod y cyfarfod, fe gytunoch chi i anfon atom y rhestr lawn o argymhellion sy’n deillio o’r adroddiad a gwblhawyd yn 2021 ar rygbi menywod yng Nghymru. Edrychwn ymlaen at gael y rhestr hon maes o law.

Yn y cyfamser, hoffem hefyd fanteisio ar y cyfle i'ch annog i geisio pob llwybr i sicrhau bod yr adolygiad hwn yn cael ei gyhoeddi. Rydym yn croesawu’r camau rydych chi’n eu cymryd i gyhoeddi fersiwn wedi’i golygu o’r adroddiad. Credwn y gall didwylledd a thryloywder ond bod yn beth da wrth ymdrin â’r mater hwn, a gobeithiwn weld copi o’r adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi’n fuan.

## Gwybodaeth am faterion achwyn a disgyblu

Yn ystod y cyfarfod, pan ofynnwyd ichi rannu gwybodaeth am nifer y cytundebau peidio â datgelu y mae URC wedi’u defnyddio, dywedasoch na allech ‘sathru ar y gyfraith’ ac y byddech yn ‘ceisio hwyluso’ y bobl sy’n ymwneud â rhoi tystiolaeth i'r Adolygiad Allanol. Byddem yn croesawu cadarnhad o nifer y cytundebau peidio â datgelu y mae’r Undeb wedi’u defnyddio yn y pum mlynedd diwethaf. Yn ogystal â'r wybodaeth hon, hoffem wybod faint o staff sydd wedi cael eu disgyblu neu sydd wedi bod yn destun cwynion yn ymwneud â honiadau o hiliaeth, gwahaniaethu ar sail rhyw, casineb yn erbyn menywod a homoffobia dros yr un cyfnod.

Mae’r Pwyllgor yn glir y bydd yn cadw llygad barcud ar y mater hwn ac mae’n edrych ymlaen at siarad â chi eto yn y dyfodol agos i drafod hynt y gwaith hwn.

Yn gywir,

Delyth Jewell AS

Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.